# MYSTERIOUS AFAN CUDD
# GERALLT GYMRO



https://chester.shoutwiki.com/wiki/Gerald_of_Wales

“Rwyf yn disgyn o Dywysogion Cymru a Barwniaid y Mers... ac yn casáu gweld anghyfiawder yn y naill a’r llall genedl”

Roedd Gerallt Gymro hefyd yn mynd wrth yr enw Gerald de Barry, ar ôl ei dad Normanaidd, Gerallt Gymro gan y Cymry a Giraldus Cambrensis, gan bobl a oedd, fel yntau’n siarad Lladin. Norman oedd ei dad ac roedd ei fam, Angharad, yn ferch i’r Dywysoges Nest a’i gŵr, y Norman Gerallt o Windsor. Felly roedd Gerallt yn hanner Cymro ac yn hanner Norman.

Pan roedd tua 10 mlwydd oed, anfonwyd ef gan ei deulu i astudio yn Abaty Benedictaidd Caerloyw (Eglwys Gadeiriol Caerloyw erbyn heddiw). Dysgodd Lladin, rhesymeg a rhethreg – a oedd yn ei helpu perswadio bobl ynghylch ei syniadau. Pan roedd tua 15 oed aeth ymlaen i astudio ym Mharis.

Pan ddychwelodd, aeth i weithio i’r Brenin Harri’r II, Brenin Lloegr. Ar yr adeg hon dechreuodd deithio o gwmpas Cymru, ac yna yr Iwerddon, gan ysgrifennu ei lyfrau mwyaf enwog i ddisgrifio’r teithiau hyn.

# MYSTERIOUS AFAN CUDD

Bwriad ei daith o gwmpas Cymru yn 1188 oedd i helpu Baldwin, Archesgob Caergaint, recriwtio dynion i ymladd yn y Drydedd Groesgad, i adennill Caersalem, ar ran yr Eglwys Gatholig, oddiwrth y swltan Cwrdaidd a oedd wedi meddiannu'r ddinas.

Roedd Gerallt am fod yn Esgob Tyddewi, fel roedd ei ewythr wedi bod, a gwneud eglwys Cymru yn annibynnol o'r eglwys Seisnig yng Nghaergaint. Ond ni chafodd fyth ei benodi'n Esgob Tyddewi. Ysgrifennodd un deg saith llyfr, ac mae ei hanesion am deithio yng Nghymru a'r Iwerddon yn rhoi inni ddarlun da iawn o fywyd yn y gwledydd hynny yn y cyfnod, ac yn cynnwys storïau doniol am y bobl lleol.

Pan gyrhaeddodd Margam ym mis Mawrth, 1188, cafodd ei hebrwng ar hyd yr arfordir tuag at Abertawe gan y Tywysog Morgan ap Caradog, un o Dywysogion Afan. Mae'n debyg bod y tywydd yn arw iawn, oherwydd mae'n dweud bod "y môr wedi codi'n llawer uwch nag arfer ... fel bod.... creaduriaid o bob math wedi'u boddi mewn llawer man, a bod nifer go fawr o bobl hefyd wedi cael eu sgubo ymaith".




Gerallt yn cyflwyno ei lyfr i'r Frenin Henry II
https://bestiary.ca/prisources/psdetail1194.htm

# MYSTERIOUS AFAN CUDD



Yr Afon Nedd heddiw John Evans / Wikimedia Commons

Roedd y siwrnai'n anodd, ond llwyddwyd croeso'r Afon Afan, ond roedd yr Afon Nedd yn waeth fyth...

"oherwydd y sugndraethau peryglus, sy'n amsugno ar unwaith unrhyw beth sy'n camu arnynt. Roedd un o'n pynfeirch (yr unig un a oedd ym meddiant awdur y llinellau hyn) yn trotian ar hyd y ffordd isaf ger y môr ac, er ei fod yng nghanol grŵp o bynfeirch eraill, cafodd bron ei dynu i'r affwys. O'r diwedd, yn dilyn llawer o drafferth ac wedi llawer o waith caled a pheryglus gan fechgyn y ceffylau, cafodd ei dynnu i ddiogelwch, ond ddim heb ddifrodi fy llyfrau a'm heiddo. Er bod Morgan, Tywysog yr ardal honno, yn ein tywys, roeddwn wedi cyrraedd yr afon, ond dim ond wedi llawer o beryglon, a myw fyth o syrthio".

Ar ôl iddo bron â chael ei amsugno gan y sugndraethau, dywedodd un o'r mynachod a oedd gyda Gerallt, "Mae'r wlad hon yn wlad anodd!"
"Ddim o gwbl", atebodd y llall, "credaf ei bod yn llawer rhy feddal"

Ar ôl i Gerallt geisio am flynyddoedd lawer i fod yn Esgob Tyddewi, penodwyd rhywun arall i'r swydd. Ond, hyd yn oed bryd hynny, roedd Gerallt wedi gwneud ei orau glas i sicrhau bod hawliau hynafol Tyddewi yn cael eu cadw. Ar wahan i fynd ar bererindod i Rufain yn 1205, treuliodd y gweddill o'i fywyd yn ysgrifennu llyfrau. Bu farw yn 1223, a chafodd ei gladdu yn ei Dyddewi annwyl.

Y testun wedi'i addasu o:
A Mirror of Medieval Wales: Gerald of Wales and his Journey of 1188 Cadw
https://www.britannica.com/biography/Giraldus-Cambrensis